# Iechyd, Diogelwch a Llesiant

## Asesiad o Anghenion Cymorth Cyntaf

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr adroddiad:** | **11 Ionawr 2024** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Bwrdd Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** |
| **Cyfeirnod :** | **CEX-FA-001** |
| **I'w adolygu:** | **Ionawr 2027** |



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | Testun | Tudalen/nau |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 | Cwmpas | 2 |
| 3.0 | Mathau o Hyfforddiant Cymorth Cyntaf | 2-3 |
| 4.0 | Asesiad o Anghenion Cymorth Cyntaf | 3-4 |
| 5.0 | Casgliad | 4 |
| | Atodiad 1 | 5-13 |

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'n ofynnol ar Gyngor Sir Caerfyrddin o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 i ddarparu offer, cyfleusterau, a phersonél digonol a phriodol i sicrhau bod gweithwyr yn cael sylw yn syth os ydynt yn cael eu hanafu neu'n mynd yn sâl yn y gwaith.

Hefyd, mae gan yr awdurdod ddyletswydd foesol i roi ystyriaeth i anghenion cymorth cyntaf pobl nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor, e.e., aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, disgyblion ac ati.

Cynhaliwyd yr asesiad blaenorol o anghenion cymorth cyntaf sawl blwyddyn yn ôl. Roedd angen ei adolygu, a dyna bwrpas darparu'r adroddiad hwn.

Mae'n hanfodol felly fod yr asesiad blaenorol o anghenion cymorth cyntaf yn cael ei adolygu a'i fod yn cadarnhau a yw'r lefelau hyfforddiant a argymhellir ar hyn o bryd yn parhau'n ddigonol i gyflawni'r dyletswyddau sydd gan yr awdurdod erbyn hyn.

## 2.0 Cwmpas

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys asesiad o anghenion cymorth cyntaf yr awdurdod, ysgolion, a gwasanaethau i sicrhau y darperir lefelau addas o hyfforddiant cymorth cyntaf.

Nid yw'r adroddiad hwn yn amlinellu trefniadau penodol (megis nifer y swyddogion cymorth cyntaf neu offer) sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau, gweithleoedd, neu adeiladau. Dylai pob Rheolwr / Pennaeth Ysgol nodi'r nifer addas o bersonau penodedig, swyddogion cymorth cyntaf ac offer cymorth cyntaf a dylai hyn fod yn unol ag anghenion y gwasanaeth, gweithle, neu adeilad. Mae canllawiau ar gael ar y fewnrwyd / Porth i gynorthwyo gyda'r broses hon.

## 3.0 Mathau o Ddarpariaeth Cymorth Cyntaf

**Person Penodedig**

Mae rôl y person penodedig hwn yn cynnwys gofalu am offer a chyfleusterau cymorth cyntaf a galw am y gwasanaethau brys pan mae angen. Gall hefyd ddarparu gwasanaeth brys pan nad yw swyddog cymorth cyntaf yn bresennol oherwydd amgylchiadau annisgwyl (nid yw gwyliau blynyddol yn cyfrif). Nid oes angen hyfforddiant cymorth cyntaf ar berson penodedig. Nid oes angen person penodedig pan mae nifer digonol o swyddogion cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael.

**Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (swyddog cymorth cyntaf wedi cael 1 diwrnod o hyfforddiant)**

Rôl swyddog cymorth cyntaf a gafodd hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (CCBG) - ar y lefel hon mae'r swyddog cymorth cyntaf yn gymwys i roi cymorth cyntaf brys i rywun sydd wedi cael ei anafu neu sy'n mynd yn sâl yn y gwaith. Mae'n gyfrifol hefyd am ofalu am offer

cymorth cyntaf yn ei feysydd gwaith i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael a'u bod o fewn y dyddiadau dod i ben a argymhellir.

Yn ogystal â'r hyfforddiant arferol, mae'r math yma o swyddog cymorth cyntaf yn cael hyfforddiant i ddefnyddio diffibriliwr.

Ar gyfer mathau penodol o eiddo a rolau mae'r hyfforddiant a ddarperir yn canolbwyntio ar feysydd penodol o gymorth cyntaf, er enghraifft, ceir addasiad pediatrig a ddarperir ar gyfer pob Ysgol Gynradd a lle y darperir gwasanaethau i blant 4 oed ac iau ac ati.

Hefyd, gellir addasu'r cwrs undydd i gynnwys meysydd ychwanegol megis gwaedu catastroffig ar gyfer pobl sy'n defnyddio offer risg uwch megis llifiau cadwyn.

Lle y mae angen gellir darparu gweithdai unigol ychwanegol ar gyfer rheoli cyflyrau meddygol penodol megis epilepsi i sicrhau bod yr holl staff perthnasol, gan gynnwys swyddogion cymorth cyntaf, yn derbyn hyfforddiant priodol i reoli'r cyflyrau hyn a rhoi meddyginiaethau.

**Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (swyddog cymorth cyntaf wedi cael 3 diwrnod o hyfforddiant)**

Rôl swyddog cymorth cyntaf a gafodd hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (CCG) – yn gymwys i lefel CCBG ond gall hefyd roi cymorth cyntaf ar gyfer nifer o anafiadau a mathau o afiechyd penodol. Mae'n gyfrifol hefyd am ofalu am offer cymorth cyntaf yn ei feysydd gwaith i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael a'u bod o fewn y dyddiadau dod i ben a argymhellir.

Mae'r lefel hon o hyfforddiant yn cynnwys ystod ehangach o driniaethau cymorth cyntaf sydd eu hangen fel arfer pan mae asesiad o anghenion cymorth cyntaf yn dangos fod risg gynyddol y bydd swyddogion cymorth cyntaf yn gorfod delio â materion fel gwenwyno, anaffylacsis, llosgiadau neu dorasgwrn.

**Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl**

Prif nod y Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yw adnabod arwyddion afiechyd meddwl posibl a darparu cefnogaeth gychwynnol i staff sydd angen cymorth, yn yr un math o ffordd ag y byddai swyddog cymorth cyntaf corfforol yn ymateb i anaf neu afiechyd corfforol. Bydd y Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn cael ei gefnogi i feithrin diwylliant yn y gweithle lle y mae anogaeth i staff drafod materion iechyd meddwl yn agored a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr wrth wneud hynny.

## 4.0 Asesiad o Anghenion Cymorth Cyntaf

Er mwyn nodi'r lefelau hyfforddiant y dylai Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu, cynhaliwyd asesiad cyffredinol o anghenion cymorth cyntaf. Mae'r asesiad o anghenion wedi ystyried y canlynol:

- Y mathau o waith a wneir ar draws yr awdurdod.
- Peryglon a'r risg debygol y gallant wneud drwg.

- Maint y gweithlu, wedi'i rannu ar draws adrannau, is-adrannau, a gwasanaethau.
- Patrymau gwaith, gwyliau ac absenoldebau.
- Hanes damweiniau yn yr awdurdod.
- Mynediad at wasanaethau meddygol brys.
- Darparu cymorth cyntaf i bobl nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor megis aelodau'r cyhoedd, disgyblion a defnyddwyr gwasanaethau.

Ceir copi o'r asesiad cyffredinol o anghenion yn Atodiad 1.

Er mwyn nodi nifer y swyddogion cymorth cyntaf a faint o offer sydd eu hangen ar gyfer pob gweithle, gwasanaeth neu adeilad, dylai Rheolwyr / Penaethiaid Ysgol gynnal asesiad penodol o anghenion cymorth cyntaf yn dilyn Canllawiau Cymorth Cyntaf ar y fewnrwyd / Porth. Os yw adran, is-adran neu wasanaeth yn credu eu bod angen trefniadau cymorth cyntaf gwahanol am reswm penodol, argymhellir fod y Rheolwr / Pennaeth Ysgol yn cynnwys hyn yn ei asesiad o anghenion cymorth cyntaf a'i fod yn trafod hyn gyda'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.0 Casgliadau ac Argymhellion

Gan roi ystyriaeth i'r asesiad o anghenion cymorth cyntaf, mae wedi cadarnhau fod sefyllfa'r awdurdod a nodwyd ynghynt yn dderbyniol. Felly, lefel yr hyfforddiant arferol a argymhellir yw:

- Gwasanaeth swyddog cymorth cyntaf a gafodd 1 diwrnod o hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (CCBG) ac elfennau eraill i gael eu nodi gan y gwasanaeth i'w cynnwys ar y cwrs.

Yr unig wyriad o hyn yw un all fod yn bosibl mewn amgylcheddau risg is, megis swyddfeydd sy'n cynnwys nifer cyfyngedig o bobl heb unrhyw fynediad i aelodau'r cyhoedd, disgyblion, na defnyddwyr gwasanaethau. Yn y lleoliadau hyn, a thros dro a lle y mae trefniadau gweithio hybrid yn datblygu, gall Rheolwyr / Penaethiaid Ysgolion nodi person penodedig fel y cam isaf derbyniol i ddarparu lefel cyson o ddarpariaeth.

Yr argymhelliad ar gyfer hyfforddiant gloywi neu ailadroddol yw y dylid sicrhau bod pob swyddog cymorth cyntaf CCBG yn cael hyfforddiant gloywi o leiaf bob 3 blynedd, ond os yw'r swyddog cymorth cyntaf yn gofyn am hyfforddiant gloywi oherwydd anweithgarwch yn ystod y cyfnod hwn, dylid cefnogi hynny.

Argymhellir fod pob Rheolwr / Pennaeth Ysgol yn cynnal adolygiad o'i asesiad o anghenion cymorth cyntaf i gadarnhau fod ganddo'r nifer angenrheidiol o swyddogion cymorth cyntaf ac i ddarparu'r cyfanswm angenrheidiol o offer.

Mae Canllawiau Cymorth Cyntaf ar gael ar y fewnrwyd / Porth i gefnogi Rheolwyr / Penaethiaid Ysgolion i gyflawni eu dyletswydd i ddarparu gwasanaeth ac offer cymorth cyntaf.

## Atodiad 1

| Adran / Is-adran / Gwasanaeth | Math o waith a wneir | Risg uchaf o beryglon / anafiadau | Mynediad at wasanaethau meddygol | Hanes damweiniau | Mynediad gan aelodau'r cyhoedd, disgyblion, defnyddwyr gwasanaethau | Person Penodedig / CCBG / CCG | Elfennau Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lle a Seilwaith<br>Seilwaith Amgylcheddol | Adeiladu a Chynnal a chadw<br>Cynnal a chadw cerbydau<br>Cynnal a chadw tiroedd<br>Ymweliadau / archwiliadau safle<br>Trydanol<br>Peirianneg<br>Dylunio<br>Gwaith ar y briffordd gyhoeddus | Cyswllt â cherbydau<br>Anafiadau llifiau cadwyn<br>Defnyddio offer | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Peth cyswllt | CCBG | Gwaedu catastroffig trwy ddefnyddio llifiau cadwyn<br><br>Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau (e.e., cludiant teithwyr) |
| Lle a Seilwaith<br>Seilwaith Amgylcheddol | Casglu gwastraff<br>Cynnal a chadw tiroedd<br>Ymweliadau / archwiliadau safle | Cyswllt â cherbydau<br>Anafiadau llifiau cadwyn | Arferol ond mae rhai meysydd | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Peth cyswllt | CCBG | Gwaedu catastroffig trwy ddefnyddio llifiau cadwyn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaith ar y briffordd gyhoeddus | | gwaith yn ynysig a gwledig | | | | |
| Lle a Seilwaith<br><br>Lle a Seilwaith | Ymweliadau / archwiliadau safle<br>Gwaith ar y briffordd gyhoeddus | Cyswllt â cherbydau<br>Llithro, baglu, cwympo | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Cyswllt rheolaidd | Darpariaeth isaf-derbyniol gan berson penodedig ond argymhellir CCBG | Amherthnasol |
| Lle a Seilwaith<br><br>Eiddo | Defnyddio offer<br>Cynnal a chadw<br>Ymweliadau safle | Cyswllt â cherbydau<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Defnyddio offer | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Cyswllt rheolaidd | CCBG | Amherthnasol |
| Lle a Seilwaith<br><br>Cymorth Busnes a Gwelliannau | Gweithgareddau swyddfa<br>Gwasanaethau glanhau | Defnyddio deunyddiau glanhau<br><br>Codi a chario | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Peth cyswllt | Darpariaeth isaf-derbyniol gan berson penodedig ond argymhellir CCBG | Amherthnasol |
| Cymunedau<br><br>Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | Gwaith gofal cymdeithasol<br>Ymweliadau ag eiddo domestig | Codi a chario<br>Meddyginiaethau<br>Llithro, baglu, cwympo | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tai – cymorth swyddfa a chymunedol<br>Ymweliadau safle | Trais ac Ymddygiad Ymosodol | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymunedau<br><br>Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Gwaith gofal cymdeithasol<br>Gweithgareddau gwaith cymdeithasol<br>Ymweliadau ag eiddo domestig<br>Ymweliadau safle<br>Gweithgareddau swyddfa | Codi a chario<br>Meddyginiaethau<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Cymunedau<br><br>Gwasanaethau Integredig | Gwaith gofal cymdeithasol<br>Gweithgareddau gwaith cymdeithasol<br>Ymweliadau ag eiddo domestig<br>Ymweliadau safle<br>Gweithgareddau swyddfa | Codi a chario<br>Meddyginiaethau<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Cymunedau<br><br>Hamdden a Chwaraeon | Darpariaeth canolfan hamdden<br>Gweithgareddau hamdden cymunedol<br>Parciau Gwledig yn cynnwys cynnal a chadw tiroedd<br>Adeiladau diwylliannol<br>Digwyddiadau<br>Arlwyo | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Cyswllt â cherbydau<br>Anafiadau llifiau cadwyn | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Gwaedu catastroffig trwy ddefnyddio llifiau cadwyn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Phlant<br><br>Ysgolion | Gweithgareddau addysgol<br>Gweithgareddau chwaraeon<br>Anghenion Addysgol Arbennig<br>Cefnogi plant ag anghenion meddygol<br>Cynnal a chadw tiroedd<br>Cynnal a chadw cyffredinol | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Cyswllt â cherbydau<br>Defnyddio offer Meddygol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG (Pediatrig) | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Addysg a Phlant<br><br>Gwasanaethau Plant | Gweithgareddau gwaith cymdeithasol<br>Maethu<br>Gwaith ieuenctid<br>Gwasanaethau gofal | Codi a chario<br>Meddyginiaethau<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG (Pediatrig) | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Addysg a Phlant<br><br>Mynediad at Addysg | Gweithgareddau swyddfa<br>Gweithgareddau arlwyo<br>Ymweliadau safle | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Amherthnasol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Trais ac Ymddygiad Ymosodol Defnyddio teclynnau ac offer arlwyo | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Phlant<br><br>Cwricwlwm a Llesiant | Gweithgareddau swyddfa<br>Ymweliadau safle<br>Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Meddygol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Cyswllt rheolaidd | CCBG | Amherthnasol |
| Addysg a Phlant<br><br>Addysg a Chynhwysiant | Gweithgareddau swyddfa<br>Ymweliadau safle<br>Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Meddygol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Cyswllt rheolaidd | CCBG | Amherthnasol |
| Addysg a Phlant<br><br>Ysgolion Cynradd | Gweithgareddau swyddfa<br>Gweithgareddau arlwyo<br>Darparu Addysg i blant 3-11 oed.<br>Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Defnyddio teclynnau ac offer arlwyo<br>Meddygol | Arferol ond mae rhai ysgolion yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG (Pediatrig) | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Addysg a Phlant<br><br>Ysgolion Uwchradd | Gweithgareddau swyddfa<br>Gweithgareddau arlwyo | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo | Arferol ond mae rhai ysgolion yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darparu Addysg i blant ac oedolion ifanc 11-18 oed.<br>Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Defnyddio teclynnau ac offer arlwyo<br>Meddygol | | | | | |
| Addysg a Phlant<br><br>Ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig / Unedau Ymddygiadol | Gweithgareddau swyddfa<br>Gweithgareddau arlwyo<br>Darparu Addysg i blant ac oedolion ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion ymddygiadol.<br>Cyfarfod â rhieni / y cyhoedd | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>Defnyddio teclynnau ac offer arlwyo<br>Meddygol | Arferol ond mae rhai ysgolion yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau gan amlaf, ambell un yn fwy difrifol | Lefel uchel o gyswllt | CCBG<br><br>CCBG (Pediatrig) | Rhai meysydd pwrpasol ar gyfer meddyginiaethau |
| Prif Weithredwr<br><br>Pob Is-adran | Trefi / Marchnadoedd<br>Marchnata a'r Cyfryngau<br>TGCh<br>Gwasanaethau Etholiadol<br>Adfywio<br>Gweithgareddau swyddfa | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo<br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Cyswllt rheolaidd | CCBG | Amherthnasol |
| Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Pob Is-adran | Gweithgareddau swyddfa<br>Gwasanaethau ariannol<br>Desgiau arian parod | Codi a chario<br>Llithro, baglu, cwympo | Arferol ond mae rhai meysydd gwaith yn ynysig a gwledig | Mân anafiadau | Cyswllt rheolaidd | CCBG | Amherthnasol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg | Trais ac Ymddygiad Ymosodol | | | | | |